| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **29 MEHEFIN 2015** |
| **TEITL** | **CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR Y COD YMDDYGIAD I AELODAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

## 1 CRYNODEB

1.1 Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drydydd fersiwn ei Ganllawiau ar y Cod Ymddygiad i Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae canllawiau ar wahân ar gyfer Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac ar gyfer Aelodau Cynghorau Cymuned. Mae copi o'r ddwy set o ganllawiau Cyghorau Sir yn ynghlwm a gellir gweld copi ar gyfer Cynghorau Cymuned drwy ddilyn y cyswllt www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/Guidance-policies.aspx

1.2 Mae'r canllawiau'n nodi prawf dau-gam diwygiedig y bydd yr Ombwdsmon yn ei ddefnyddio wrth ystyried cwynion ynghylch torri Cod Ymddygiad Aelodau sydd bellach yn cynnwys trothwy budd cyhoeddus. Mae newidiadau eraill yn cynnwys cyfarwyddyd pellach ar ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol a siartiau llif. Bwriad y siartiau llif yw rhoi cymorth ac eglurder i Aelodau ar faterion buddiannau.

## 3 CEFNDIR

3.1 Mae gofyn i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned yng Nghymru fabwysiadu Cod ynghylch yr ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig y mae'n rhaid iddynt lynu wrtho yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Mae rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys darparu canllawiau i Aelodau Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned i'w cynorthwyo nhw i ddeall eu rhwymedigaethau dan y Cod Ymddygiad.

3.2 Dyma drydydd fersiwn y canllawiau i'w cyhoeddi gan yr Ombwdsmon ac maent yn esbonio'r prawf dau-gam diwygiedig y bydd yr Ombwdsmon yn ei ystyried wrth bennu p'un a yw am ymchwilio neu barhau gydag ymchwiliad ynghylch torri'r Cod i'r pwynt o gyfeirio'r mater i Bwyllgor Safonau neu i Banel Dyfarnu Cymru. Yn y prawf dau-gam newydd, yr ystyriaeth gyntaf fydd a oes tystiolaeth uniongyrchol o dorri'r cod. Mae lefel y prawf sydd ei angen yn ôl pwysau tebygolrwydd. Os bodlonir y prawf tystiolaeth hwnnw, yna bydd yr Ombwdsmon yn bwrw ymlaen i ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad

neu gyfeirio i Bwyllgor Safonau neu i Banel Dyfarnu Cymru er budd cyhoeddus. Yn y canllawiau, mae'r Ombwdsmon yn amlinellu'r ffactorau budd cyhoeddus y bydd yn eu hystyried, sy'n cynnwys:-

- Pa mor ddifrifol yw'r torri cod?
- P'un a wnaeth Aelodau geisio budd personol iddyn nhw eu hunain neu rywun arall ar draul y cyhoedd.
- A gamddefnyddiwyd safle o ymddiriedaeth neu awdurdod ac a achoswyd niwed i berson?
- Ai gwahaniaethu oedd y cymhelliant i dorri'r cod?
- A oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol gan Aelod?
- A oes angen ymchwilio er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn Aelodau Etholedig?
- A yw ymchwilio yn ymateb cymesur (sy'n debygol o arwain at gosb).

Mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn eang ynghylch a yw am ddechrau neu barhau ag ymchwiliad a phwrpas y canllawiau diwygiedig yw darparu gwell eglurder ar sut fydd yn ymarfer y disgresiwn hwnnw fel arfer ac er mwyn sicrhau gwell cysondeb yn y penderfyniadau a wneir.

3.3 Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon wedi ymgorffori canllawiau pellach ar ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol ac mae'n cyfeirio at ganllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfryngau cymdeithasol o'r enw "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr". Cyfeirir at y materion hyn yn benodol yng nghanllawiau'r Ombwdsmon ar baragraff 6(1)(a) – anfri a 4(b) – trin â pharch ac ystyriaeth. Yn benodol, atgoffir Aelodau bod gofyn i Aelod gael "croen mwy trwchus" ac, oni bai bod sylwadau gwleidyddol yn hynod o sarhaus neu warthus, mae'n annhebygol o ymchwilio i gwynion a wneir gan Aelodau, p'un a yw hynny yn Siambr y Cyngor neu rywle arall. Ar y llaw arall, gellir ystyried beirniadaeth annheg ac anghywir o'r Awdurdod mewn arena cyhoeddus neu e-bost neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol sy'n amhriodol fel dwyn anfri ar swydd Aelod, a allai deilyngu ymchwiliad.

3.4 Mae'r canllawiau'n ymgorffori enghreifftiau defnyddiol a ddaw o achosion gwirioneddol sydd wedi'u hystyried gan yr Ombwdsmon a hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan Bwyllgor Safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru. Ceir hefyd siartiau llif defnyddiol y gallai fod o ddefnydd i Aelodau wrth ystyried datgan buddiant, sydd wedi'u hymgorffori fel atodiadau i'r canllawiau.

3.5 Mae'r Canllawiau diwygiedig yn cael eu hanfon at holl aelodau'r awdurdod ac mae'n bosib y dymuna'r Pwyllgor ystyried p'un a fyddai hyfforddiant gloywi o fudd.

.

**ARGYMHELLIAD**

**Nodi'r canllawiau diwygiedig ar y Cod Ymddygiad i Aelodau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**